


Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

St Justinians/Porthselau

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 200 400 m

PELLTER/HYD: 2.1 miles (3.4 km) 1 hour

CLUDIANT CYHOEDDUS: * Celtic Coaster 403 o Dyddewi i St Justinians (*tymhorol, galw a teithio)

CYMERIAD: Arfordir garw, ymyl y clogwyn, mewndirol wlyb a mwdlyd o Porthselu, 0.5 milltir (0.75 km) cerdded isffordd


CHWILIWCH AM: Gorsaf bad achub St Justinian • barn i Ynys Dewi, Carn Llidi a Porth Mawr adar y môr a morloi • llamhdyddion

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Lwybr Cylch
- Lwybr Arfordir Sir Benfro
Lwybr Cenedlaethol
- - - Lwybrau Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toiledau Cyhoeddus (Porth Mawr a Tyddewi)
- Bus Safle Bws



St Justinians/Porthselau

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr

Pellter: 2.1 milltir (3.4 km)

Cludiant cyhoeddus: *Celtic Coaster 403 o Tyddewi i St Justinians (*iymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod mapf: SM724256

Ym mis Mai a Mehefin, pan fydd carped o flodau gwyllt ar gopa'r clogwyni, mae'r llwybr ym Mhwynt Sant Ioan yn gallu bod yn le siriol i gerdded. Ar bob adeg o'r flwyddyn, mae'r golygfeydd at Ynys Dewi, a'i frigiadau cyfagos, yr Esgobion a'r Clercod, yn wefreiddiol - ac mae yna gyfle hefyd i weld dolffiniaid a llamhidyddion.

Dyma ardal wych hefyd i weld morloi. Chiliwch am forloi bach llwyd newydd-anedig yn yr Hydref; maen nhw'n wyn fel yr eira am hyd at dair wythnos o'u bywydau. Byddwch yn dawel a cheisiwch gadw o dan linell y gorwel wrth i chi wyllo, rhag ofn y byddwch yn dychryn yr un bach neu'r fam. Mae'n bwysig iawn nad ydych chi'n dychryn y fam i ffwrdd tra'i bod yn rhoi llaeth i'w rhai bach.

Ym Mhorth Selau mae'r creigiau gwaelodol ymhlith yr hynaf yn y rhan hon o'r sir. Ffurfiwyd y clymfaen basal Cambriaidd tua 570 miliwn o flynyddoedd yn ôl ac mae'n gyfuniad lliwgar o gerrig mân a cherrig cobl.

Ychydig i'r dwyrain o'r llwybr y mae Treleddyn Uchaf, fferm a fu unwaith yn gartref i arwres leol. Aeth Margaret Williams a chwch rhwydo allan mewn storm yn 1793 i achub saith hwyliwr o'r creigiau tu hwnt i Ynys Dewi.

Am ganrifoedd, roedd yr arfordir o gwmpas Tyddewi yn brysurdeb o fynd a dod cychod mawr a bach. Yn y

mileniwm cyntaf ar ôl Crist, roedd Tyddewi wrth galon y byd Celtaidd ac roedd yr arfordir hwn yn fan pwysig i gyrraedd ac ymadael.

Yn ôl y traddodiad, aeth San Padrig ar genhadaeth i Iwerddon yn y 430au o'r Porth Mawr. Yn hwyrach, fe fyddai pererinion yn cyrraedd yn St Justinian.

Uwchlaw gorsaf y bad achub, chwiliwch am Gapel St Justinian's. Mae'r adfeilion yn dyddio o'r 16eg ganrif ond credir ei fod yn sefyll ar safle capel cynharach a sylfaenwyd gan Justinian.

I'r dwyrain o'r llwybr mae ardaloedd corsio Pwll-y-Trefeiddan, lloches ar gyfer gweision y neidr a mursennod. Y clegyr bach uwchlaw'r gors yw Clegyr Boia, a dywedir ei fod yn gadarnle i wrthwynebydd Dewi, pennaeth Celtaidd o'r enw Boia.

Mae St Justinian yn boblogaidd iawn a dyma'r man ymadael ar gyfer teithiau cwch. Mae llwybr gwasanaeth bws mini'r Celtic Coaster yn cynnwys St Justinian - dyma'r ffordd mwyaf hwylus o gyrraedd y lle hyfryd hwn.

